

CANLLAW CROESO'N ÔL

RWY'N ADDO I FOD YN GAREDIG
RWY'N ADDO I GEISIO'R GWIR ERYRI
RWY'N ADDO I DROEDIO'N YSGAFN.

RHAGOR O WYBODAETH YN

eryri.llyw.cymru/awdurdod/cofonafeirws

DILYNWCH GANLLAWIAU DIWEDDARAF LLYWODRAETH CYMRU

llyw.cymru/coronafeirws



Cerdyn addewid
i'w dorri allan

eryri.llyw.cymru



CROESO'N ÔL

Mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn anodd i ni gyd. Mae rhai ohonom wedi profi trasiedi anferth, rhai wedi cael trafferth ymdopi gyda'r unigrwydd a'r arwahanrwydd ddaeth yn sgil y llwyrsgloi. Mae pob un ohonom wedi profi rhyw fath o bwysau neu straen wrth ymgeisio i gadw ein teulu, ein cyfeillion a'n cymdogion yn ddiogel.

Tra rydym ni wedi bod adref mae'r amgylchedd naturiol a'i bywyd gwyllt arbennig wedi cael hoe fach haeddiannol. Rydym wedi gweld llawer mwy o adar yn nythu, mae'r llwybrau wedi bod yn dawel neu'n wag, ac mae'r broblem anferth o sbwriel ar ein mynyddoedd wedi diflannu.

Wrth i ni baratoi i'ch croesawu yn ôl i Eryri, a rhai ohonoch am ddod yma am y tro cyntaf, gobeithiwn y byddwch yn ystyried y canllaw yma o ddefnydd ac y byddwch yn addo i gydweithio efo ni er mwyn cadw ein cymunedau yn ddiogel ac yn ffynnu, a'r dirwedd eithriadol fel y mae.



RWY'N ADDO I FOD YN GAREDIG TRWY...

- Gynnal pellter cymdeithasol (yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru) a chynnal arfer hylendid dwylo da.
- Oedi fy ymweliad os byddaf i neu unrhyw un o'm cartref yn teimlo'n sâl neu gydag unrhyw symptomau sy'n gysylltiedig â Coronafeirws.
- Parcio yn ystyriol mewn meysydd parcio agored dynodedig a byth ar ymylon ffyrdd, mewn mannau pasio, ar draws gatiau neu rodfa.
- Cymryd sylw o unrhyw arwyddion a dilyn unrhyw gyfarwyddiadau.
- Bod yn ystyriol o ymwelwyr eraill a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma.
- Parchu cymunedau lleol, ein hiaith, diwylliant a'n treftadaeth.

RWY'N ADDO I GEISIO'R GWIR ERYRI TRWY...

- Osgoi ardaloedd prysur llawn pobl a dod o hyd i rywle tawelach os yw'n rhy brysur.
- Cymryd amser i ddarganfod gemau cudd Eryri.
- Dysgu ystyron neu darddiad enwau Cymraeg.
- Tretio fy hun i gynnyrch lleol.

RWY'N ADDO I DROEDIO'N YSGAFN TRWY...

- Adael y dirwedd fel y mae trwy fynd â'm sbwriel â'm gwastraff organig gartref.
- Peidio â chynnuau tannau, yn cynnwys barbeciw.
- Peidio â tharfu ar fywyd gwyllt trwy gadw at lwybrau.
- Cadw fy nghi ar dennyn trwy'r amser, codi ei faw a chael gwared ohono yn gyfrifol.
- Peidio â gwerysyla'n wyllt mewn pebyll na faniau cysgu – gan ddefnyddio gwerysilloedd swyddogol pan fyddant wedi agor.





Mae Eryri yn cynnig tirwedd amrywiol o arfordir trawiadol a mynyddoedd sy'n darparu cyfleoedd eang ar gyfer mwynhau, hamddena a dysgu i bobl o bob oed a gallu trwy gydol y flwyddyn. Gyda digonedd o lwybrau cyhoeddus, coedlannau brodorol, dyffrynnoedd afonydd, llwybrau ar lannau llynnoedd, gellir dod o hyd i lonyddwch ac unigedd yn hawdd i'r rhai hynny sydd am wella eu hiechyd a'u llesiant.

Ond yn bwysicaf oll, mae Eryri yn Barc Cenedlaethol. Golyga hyn ei fod yn lle hynod warchoddedig, sensitif ac arbennig. Gofynnwn i chi gofio hyn pan fyddwch yn ymweld. Troediwch yn ysgafn a helpwch ni i ofalu am y lle anhygoel yma.

CYNLLUNIWCH EICH YMWELIAD

Gellir cael gwell teimlad o Eryri dros gyfnod o ychydig ddyddiau. Bydd gennych atyniad, leoliad neu weithgaredd mewn golwg wrth ymweld. Rhag cael eich siomi, gwnewch yn siŵr y bydd yn bosib cyn i chi ddod yma. Mae'n bwysig bod gennych gynllun wrth gefn fel nad ydych yn cael siwrne wag os yw eich cyrchfan yn brysur.



BYDDWCH YN DDIOGEL YN YR AWYR AGORED

CYN I CHI GYCHWYN GOFYNNWCH 3 CHWESTIWN I'CH HUNAN...

OES GEN I'R OFFER CYWIR?

YDW I'N GWYBOD SUT FYDD Y TYWYDD?

YDW I'N HYDERUS FOD GEN I'R SGILIAU A'R GALLU AR GYFER Y DIWRNOD?



CYNLLUNIWCH EICH TAITH



GWIRIWCH Y TYWYDD



DILLAD A CHYFARPAR ADDAS



CARIWCH FWYD A DIOD I'CH CYNNAL



CARIWCH FAP PAPUR A CHWMPAWD

BYDDWCH YN GYFRIFOL PAN FYDDWCH GER Y DŴR WWW.RLSS.ORG.UK/SUMMER-WATER-SAFETY

AM RAGOR O WYBODAETH SUT I FENTRO'N GALL EWCH I: WWW.ADVENTURESMART.UK/

**CADWCH I'CH ADDEWID I FOD YN GAREDIG,
I GEISIO'R GWIR ERYRI AC I DROEDIO'N YSGAFN**

CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML



1. LLE GAF I'R WYBODAETH DDIWEDDARAF YNGYLCH Y SEFYLLFA CORONAFEIRWS MEWN PERTHYNAS Â PHARC CENEDLAETHOL ERYRI??

Am yr wybodaeth ddiweddaraf ewch i:
www.eryri.llyw.cymru/visiting



2. A FYDD TOILEDAU CYHOEDDUS AR AGOR?

Mae'n bosib y bydd rhai toiledau dal i fod ar gau. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma:
www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Hamdden-Parciau-Digwyddiadau/Toiledau/Toiledau.aspx
www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Leisure-sport-and-health/Community-Facilities/Public-Toilets/Public-Toilets.aspx



3. ALLA I DDEFNYDDIO CLUDIANT CYHOEDDUS I GYRRAEDD FY NGHJRCHFAN?

Gellir dod o hyd i amserlenni cludiant cyhoeddus yma - mae gwasanaethau bysus yn gweithredu gwasanaethau gostyngedig ar hyn o bryd wrth gadw at fesurau lleihau perygl.
www.traveline.cymru/



4. AR BA DRAETHAU GAF I OLLWNG FY NGHI ODDI AR EI DENNYN?

www.visitsnowdonia.info/cy/traethau-ar-arfordir



CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML



5. OES YNA LWYBRAU LLE GALLAF RYDDHAU FY NGHI ODDI AR EI DENNYN?

Rhaid i gŵn fod dan reolaeth glos. Er mwyn diogelu anifeiliaid fferm a bywyd gwylt gofynnwn i chi gadw eich ci ar dennyn trwy'r amser er mwyn rhoi tawelwch meddwl i chi.



6. LLE GAF I GYNGOR A RHAGOR O WYBODAETH YNGHYLCH CYRCHFANNAU / GWEITHGAREDDAU AMGEN?

Canolfan Groeso Aberdyfi: 01654 767321

Canolfan Groeso Beddgelert: 01766 890615

Canolfan Groeso Betws-y-Coed: 01690 710426

Gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

www.eryri.llyw.cymru

Gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr:

www.visitsnowdonia.info/cy/news-am-le



7. LLE GAF I AFAEL AR RAGOLYGON Y TYWYDD DIBYNADWY?

www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/mountain/snowdonlive



ENWAU LLEOEDD HANESYDDOL

Cymraeg yw un o ieithoedd byw hynaf Ewrop. Hon yw iaith bennaf 58% o boblogaeth Eryri, a hon yw'r iaith bob dydd i lawer hefyd.

Mae enwau lleoedd hanesyddol yn cofnodi teimlad ac ysbryd lleoedd, yn tanio'r dychymyg ac weithiau yn cyfleu bywyd bob dydd, y trafferthion, brwydrau a gogoniant amseroedd a fu. Gall neilltuo ychydig o amser i ddeall enwau adeiladu ar eich ymdeimlad o le cyn ac ar ôl eich ymweliad.

Aber – ceg afon – fel arfer mae enw'r afon yn dilyn er enghraifft Aberdyfi – ceg yr afon Dyfi.

Betws – ystyr Betws yw lle gweddïo neu gapel

Eryri – roedd Eryri yn gadarnle i Dywysogion Gwynedd. Mae'r enw'n golygu ucheldir neu fan uchel

Llan – eglwys – fel arfer mae enw'r Sant y mae'r eglwys leol wedi ei chysegru iddi yn dilyn e.e. Llanberis – eglwys Sant Peris

Yr Wyddfa - mae'r enw Wyddfa yn deillio o'r gair gwyddfa, sef carnedd gladdu

